Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

# Cyllideb Derfynol 2020-21 Cyllideb i greu Cymru fwy llewyrchus, mwy cyfartal a gwyrdd

Chwefror 2020

llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2020, Llywodraeth Cymru 39999, ISBN digidol 978-1-80038-066-0

## Cynnwys

Pennod 1: Cyflwyniad ........ 1
Pennod 2: Newidiadau rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol ........ 3
Pennod 3: Dyraniadau Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 ........ 5
Pennod 4: Cynlluniau gwario’r Prif Grwpiau Gwariant ........ 13
Atodiad A: Cysoni rhwng y Gyllideb Weinyddol a Dyraniadau Adnoddau yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol ........ 18
Atodiad B: Rhestr o dermau ariannol ........ 19

# Pennod 1: Cyflwyniad

## Trosolwg

1.1 Heddiw mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r Gyllideb derfynol ar gyfer 2020-21, yn unol â Rheol Sefydlog 20.

1.2 Mae'r Gyllideb derfynol yn nodi cynlluniau gwario refeniw a chyfalaf ar gyfer 2020-21, sef y flwyddyn derfynol y mae gennym setliad ar ei chyfer.

1.3 Mae'r Gyllideb derfynol yn adlewyrchu newidiadau i'r Gyllideb ddrafft a gyhoeddwyd ar 16 Rhagfyr 2019.

## Craffu ar y Gyllideb Ddrafft

1.4 Oherwydd y ffactorau allanol sydd wedi dylanwadu ar amseriad y gyllideb eleni, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi trefniadau eithriadol ar waith o ran proses y gyllideb, a hynny gyda chytundeb Pwyllgor Busnes a Phwyllgor Cyllid y Senedd. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi gyda'i gilydd, ar 16 Rhagfyr, y cynlluniau gwario strategol ar gyfer refeniw a chyfalaf, a chynigion ar drethiant a benthyca, yn ogystal â chynigion portffolio manwl y gyllideb.

1.5 Mae’r gwaith craffu ar y Gyllideb ddrafft ar gyfer 2020-21 wedi'i strwythuro yn yr un ffordd ag yn y blynyddoedd diwethaf, gyda'r Pwyllgor Cyllid yn archwilio prif flociau adeiladu cyllideb Llywodraeth Cymru – o le mae ein cyllid yn dod, gan gynnwys benthyca a phwerau trethu newydd – gydag ystyriaeth fanylach o gynlluniau gwario adrannol gan bwyllgorau polisi'r Senedd.

1.6 Mae Llywodraeth Cymru'n croesawu cyfraniad pwysig y Pwyllgor Cyllid a'r pwyllgorau polisi wrth graffu mewn ffordd adeiladol ar gynigion y gyllideb. Hoffem gofnodi mor ddiolchgar ydym i'r holl bwyllgorau am graffu ar eu hadroddiadau a'u cyhoeddi o fewn yr amserlen fwy byr.

1.7 Gan adeiladu ar y camau yr ydym wedi'u cymryd yn ystod y blynyddoedd diwethaf i wella'r broses gyllidebol, cyhoeddwyd Cynllun Gwella'r Gyllideb ochr yn ochr â'r Gyllideb hon, a hynny am y tro cyntaf. Mae'r cynllun yn cymhwyso egwyddorion Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn adeiladu ar y dystiolaeth a'r adborth a ddaeth i law mewn cylchoedd cyllidebol blaenorol

1.8 Mae'r cynllun yn nodi ein gweledigaeth, gan gynnwys uchelgeisiau tymor byr a thymor canolig, i wella'r broses gyllidebol yn unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol dros gyfnod o bum mlynedd.  Mae'n cynnwys uchelgeisiau ar gyfer gwahanol agweddau ar y broses gyllidebol gan gynnwys meysydd sydd wedi'u codi yn gyson eleni yn ystod gwaith craffu, megis atal, asesu effeithiau penderfyniadau gwario a chynllunio ariannol tymor hwy.

1.9 Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cnoi cil ar yr argymhellion a wnaed gan bwyllgorau'r Senedd a bydd yn ymateb iddynt cyn y ddadl ar y Gyllideb derfynol ar 3 Mawrth.

## Newidiadau rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol

1.10 Rydym wedi croesawu'r ddadl adeiladol yn ystod y gwaith craffu ar y gyllideb ac rydym wedi ystyried yr holl adborth a ddaeth i law yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys oddi wrth randdeiliaid a'n partneriaid cyflawni.

1.11 Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'n arferol i gyllideb y DU ddigwydd yng nghanol y broses graffu a chyn inni bennu manylion terfynol ein cynlluniau gwario. Pan gyhoeddwyd y Gyllideb ddrafft, roedd y sefyllfa hon yn dal yn bosibilrwydd ond yn dilyn cyhoeddi canlyniad yr Etholiad Cyffredinol cadarnhaodd Llywodraeth y DU y cynhelir Cyllideb y DU ar 11 Mawrth. Mae hyn yn golygu bod rhagolygon gwirioneddol y bydd ein setliad ar gyfer 2020-21 yn newid ac yn llesteirio ein gallu i wneud unrhyw newidiadau sylweddol i'n cynlluniau gwario ar hyn o bryd.

1.12 Mae'r Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd wedi ymrwymo i wneud datganiad mor gynnar â phosibl yn dilyn cyllideb y DU ar y goblygiadau ar gyfer rhagolygon trethi a manylion unrhyw symiau canlyniadol i Gymru. Nid yw'n glir ar hyn o bryd beth y bydd Cyllideb y DU'n ei gyflawni dros Gymru ond os na welwn unrhyw ostyngiad mewn cyllid refeniw gan Gyllideb y DU efallai y bydd cyfle i wneud dyraniadau pellach yn 2020-21 fel rhan o'r gyllideb atodol gyntaf.

1.13 Ers inni gyhoeddi'r Gyllideb ddrafft, mae llawer o gymunedau yng Nghymru wedi dioddef effeithiau trychinebus a digynsail yn sgil difrod llifogydd. Ar 18 Chwefror, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun argyfwng rhyddhad rhag llifogydd a fydd yn darparu hyd at £10m ar unwaith ar gyfer yr ymateb cychwynnol. Mae gwaith yn parhau i weld yn glir maint y difrod ac i nodi'r cymorth tymor hwy y bydd ei angen. Byddem yn disgwyl i unrhyw gymorth ariannol pellach gael ei adlewyrchu yn y gyllideb atodol gyntaf.

1.14 Yn erbyn y cefndir hwn, rydym yn gwneud nifer bach o addasiadau refeniw a chyfalaf yn y Gyllideb derfynol. Nodir manylion pellach am y newidiadau hyn yn y bennod nesaf.

1.15 Nododd Asesiad Effaith Integredig Strategol (SIIA) Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd fel rhan o'r Gyllideb ddrafft, effaith y penderfyniadau lefel uchel. O gofio natur y newidiadau rhwng y gyllideb ddrafft a'r Gyllideb derfynol ni ddarperir unrhyw asesiadau effaith pellach fel rhan o'r Gyllideb derfynol.

# Pennod 2: Newidiadau rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol

2.1 Amlinellir y newidiadau a wnaed rhwng cyhoeddi'r Gyllideb ddrafft a'r Gyllideb derfynol yn y bennod hon.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Cyrff a ariennir yn uniongyrchol -** Yn dilyn cyhoeddi a chraffu ar gyllidebau'r cyrff a ariennir yn uniongyrchol – sef Cynulliad Cenedlaethol Cymru; Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, rydym bellach wedi cael amcangyfrifon wedi'u diweddaru ar gyfer 2020-21 O ganlyniad, mae cynnydd ymylol o £3.865m (£0.763m refeniw, £3.084m nad yw'n arian parod a £0.018m cyfalaf) i'r cyllid y mae ei angen o fewn yr addasiad hwn, a reolir trwy'r DEL heb ei ddyrannu.

- **Newidiadau i'r rhagolygon trethi** - mae cynnydd bach i ragolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer Treth Trafodiadau Tir, gan gymryd yr wybodaeth ddiweddaraf yn ystod y flwyddyn i ystyriaeth. Mae hyn yn cynyddu £4.446m ar y rhagolwg. Ceir gostyngiad i'r rhagolwg ar gyfer cyfraddau Treth Incwm Cymru o ryw £6.858m.

- **Cost benthyca** - Gostyngiad i MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu o refeniw o £2.25m i adlewyrchu'r ffaith y bydd benthyca cyfalaf is na'r bwriad gwreiddiol yn y flwyddyn ariannol bresennol, a thrwy hynny yn y taliadau llog a ddisgwylir. Mae gostyngiad hefyd yn ad-daliad y prifswm benthyca o £4.003m sy'n effeithio ar y DEL heb ei ddyrannu sydd ar gael.

- **Buddsoddi i Arbed** - mewn perthynas ag Amgueddfa Cymru - ceir addasiad mewn perthynas â Buddsoddi i Arbed o £1.250m.Mae'r addasiad i'w briodoli i'r ffaith bod yr Amgueddfa wedi gwneud ei had-daliad i Fuddsoddi i Arbed yn y flwyddyn ariannol 2019-20. Mae angen addasiadau eraill sy'n ymwneud â Buddsoddi i Arbed ar gyfer 2020-21 ond ymdrinnir â'r rhain trwy broses Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli'r gyllideb yn ystod y flwyddyn.

- **Brecwast am ddim - niferoedd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim** - fel rhan o'r dyraniadau a wnaed yn y Gyllideb ddrafft yn unol â'n blaenoriaethau trawsbynciol, clustnodwyd £450k i gefnogi darpariaeth ar gyfer brecwast iach a maethlon, am ddim i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, cyn iddynt ddechrau'r diwrnod ysgol neu yn ystod egwyl y bore mewn ysgolion uwchradd. O ganlyniad i waith pellach i gynllunio dull gweithredu, rydym yn dyrannu refeniw ychwanegol o £385k yn 2020-21 i alluogi'r cynllun i gael ei gyflwyno i flwyddyn 7 gan ddechrau o Fedi 2020.

- **Sefydlu'r Is-adran Tir** – Fis Medi diwethaf cyhoeddwyd bod Is-adran Tir yn cael ei sefydlu yn Llywodraeth Cymru. Bydd yr Is-adran Tir newydd yn

hybu cydweithio rhwng cyrff y sector cyhoeddus i ddatgloi potensial ein tir cyhoeddus at ddibenion datblygu. Mae Sefydlu'r Is-adran Tir yn cynnwys trosglwyddo asedau tir sydd â photensial preswyl o bortffolio'r Economi a Thrafnidiaeth. O ganlyniad, mae dyraniad cyfalaf o £5m yn cael ei wneud i MEG yr Economi a Thrafnidiaeth yn 2020-21 o'r DEL heb ei ddyrannu. Mae dyraniad pellach o'r DEL heb ei ddyrannu o £560k cyfalaf a £276.5k refeniw yn 2020-21 yn cael ei ddyrannu i MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu ar gyfer costau gweithredu'r Is-adran.

## Pennod 3: Dyraniadau Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21

*Trosolwg*

3.1 Adlewyrchir y newidiadau a ddisgrifir ym mhennod dau yn y cynlluniau gwario diwygiedig a nodir yn y bennod hon, ynghyd â chynlluniau gwario'r Prif Grwpiau Gwariant ym mhennod pedwar.

3.2 Nodir y newidiadau manwl i gynigion y gyllideb rhwng cyhoeddi'r Gyllideb ddrafft a'r Gyllideb derfynol yn 2020-21 yn nhablau BEL MEG Cyllideb derfynol 2020-21, a gyhoeddir, ynghyd â'r nodyn esboniadol hwn.

Tabl 3.1 - Ffynonellau Cyllid 2020-21

| 2020-21 CYLLIDEB DERFYNOL | | | |
|---|---|---|---|
| **ELFENNAU CYLLIDO CYMRU** | **2020-21 Cynlluniau y Gyllideb Ddrafft** | **Newidiadau** | **2020-21 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Derfynol** |
| | **£000oedd** | | |
| **CYLLIDO ADNODDAU** | | | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):** | | | |
| Cyllidol | 12,404,791 | (422) | 12,404,369 |
| Anghyllidol | 690,064 | 0 | 690,064 |
| Tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru | 125,000 | 0 | 125,000 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):** | | | |
| Cyllidol | 22,104 | 55 | 22,159 |
| Anghyllidol | 79,237 | 56,262 | 135,499 |
| **Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:** | | | |
| Ardrethi Annomestig | 1,136,000 | 0 | 1,136,000 |
| Cyfradd Treth Incwm Cymru | 2,206,428 | (6,858) | 2,199,570 |
| Treth Trafodiadau Tir | 245,234 | 4,446 | 249,680 |
| Treth Gwarediadau Tirlenwi | 35,612 | 0 | 35,612 |
| Ad-dalu Prifsymiau Benthyciadau | (6,365) | 4,003 | (2,362) |
| **CYFANSWM CYLLIDO ADNODDAU** | **16,938,105** | **57,486** | **16,995,591** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **CYLLIDO CYFALAF** | | | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):** | | | |
| Cyffredinol | 1,982,009 | 0 | 1,982,009 |
| Trafodiadau Ariannol | 300,255 | 0 | 300,255 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):** | | | |
| Cyfalaf | 891,388 | (27,757) | 863,631 |
| **Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:** | | | |
| Benthyca | 125,000 | 0 | 125,000 |
| **CYFANSWM CYLLIDO CYFALAF** | **3,298,652** | **(27,757)** | **3,270,895** |
| **CYFANSWM CYLLIDO CYMRU** | **20,236,757** | **29,729** | **20,266,486** |

Tabl 3.2 - Dyrannu Cyllideb Cymru – Adnoddau

| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | | **2020-21 Cynlluniau yn ôl Gyllideb Ddrafft** | **Newidiadau** | **2020-21 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Derfynol** |
|---|---|---|---|---|
| | | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | | 8,903,009 | 55,584 | 8,958,593 |
| Tai a Llywodraeth Leol | | 5,866,224 | 55 | 5,866,279 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | | 1,547,711 | 5,000 | 1,552,711 |
| Addysg | | 2,551,295 | (26,774) | 2,524,521 |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | | 219,060 | 1,250 | 220,310 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | | 350,162 | 0 | 350,162 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | | 389,757 | (2,664) | 387,093 |
| **Cyfanswm Dyraniad i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | | **19,827,218** | **32,451** | **19,859,669** |
| Adnoddau heb eu Dyrannu | Adnoddau Cyllidol | 103,473 | 1,968 | 105,441 |
| | Adnoddau Anghyllidol | 151,193 | (3,084) | 148,109 |
| Cyfalaf heb ei Ddyrannu | Cyffredinol | 37,377 | (5,578) | 31,799 |
| | Trafodiadau Ariannol | 45,939 | 0 | 45,939 |
| Comisiwn y Cynulliad | | 57,988 | 3,423 | 61,411 |
| Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | | 4,954 | 172 | 5,126 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | | 7,878 | 350 | 8,228 |
| Taliadau a Godir yn Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | | 737 | 27 | 764 |
| **CYFANSWM CYLLIDEB CYMRU** | | **20,236,757** | **29,729** | **20,266,486** |

Tabl 3.3 - Crynodeb o gyfanswm dyraniadau MEG Llywodraeth Cymru 2020-21

| | CYFANSWM DYFANIADAU PRIF GRWPIAU GWARIANT CYLLIDEB DERFYNOL 2020-21 | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | | | | | | | | | |
| | Adnoddau | | | Cyfalaf | | | Gwariant a Reolir yn Flynyddol | | | CYFANSWM DYRANIAD PRIF GRWPIAU GWARIANT |
| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | **Cyllidol** | **Anghyllidol** | **Cyfanswm Adnoddau** | **Cyffredinol** | **Trafodiadau Ariannol** | **Cyfanswm Cyfalaf** | **Adnoddau** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 8,176,438 | 190,000 | **8,366,438** | 374,488 | 0 | **374,488** | 217,667 | 0 | **217,667** | **8,958,593** |
| Tai a Llywodraeth Leol | 3,970,194 | 240 | **3,970,434** | 585,085 | 150,505 | **735,590** | 1,160,255 | 0 | **1,160,255** | **5,866,279** |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 540,060 | 192,400 | **732,460** | 705,466 | 85,260 | **790,726** | 29,525 | 0 | **29,525** | **1,552,711** |
| Addysg | 1,460,021 | 107,154 | **1,567,175** | 217,711 | (195) | **217,516** | (123,801) | 863,631 | **739,830** | **2,524,521** |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 159,202 | 8,882 | **168,084** | 33,467 | 15,746 | **49,213** | 3,013 | 0 | **3,013** | **220,310** |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 195,095 | 21,675 | **216,770** | 128,992 | 2,000 | **130,992** | 2,400 | 0 | **2,400** | **350,162** |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 337,848 | 16,000 | **353,848** | 29,246 | 1,000 | **30,246** | 2,999 | 0 | **2,999** | **387,093** |
| **CYFANSWM DYRANIAD I BRIF GRWPIAU GWARIANT LLYWODRAETH CYMRU** | **14,838,858** | **536,351** | **15,375,209** | **2,074,455** | **254,316** | **2,328,771** | **1,292,058** | **863,631** | **2,155,689** | **19,859,669** |

Tabl 3.4 - Newidiadau i DEL Adnoddau Cyllidol Llywodraeth Cymru

| DYRANIADAU CYLLIDOL | | | |
|---|---|---|---|
| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | **£000oedd** | | |
| | **2020-21 Cynlluniau yn ôl Gyllideb Ddrafft** | **Newidiadau** | **2020-21 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Derfynol** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 8,176,438 | 0 | 8,176,438 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 3,970,194 | 0 | 3,970,194 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 540,060 | 0 | 540,060 |
| Addysg | 1,459,636 | 385 | 1,460,021 |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 157,952 | 1,250 | 159,202 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 195,095 | 0 | 195,095 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 341,072 | (3,224) | 337,848 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau Cyllidebol i Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **14,840,447** | **(1,589)** | **14,838,858** |

Tabl 3.5 – Newidiadau i DEL Adnoddau Anghyllidol Llywodraeth Cymru

| DYRANIADAU ANGHYLLIDOL | | | |
|---|---|---|---|
| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | **£000oedd** | | |
| | **2020-21 Cynlluniau yn ôl Gyllideb Ddrafft** | **Newidiadau** | **2020-21 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Derfynol** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 190,000 | 0 | 190,000 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 240 | 0 | 240 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 192,400 | 0 | 192,400 |
| Addysg | 107,154 | 0 | 107,154 |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 8,882 | 0 | 8,882 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 21,675 | 0 | 21,675 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 16,000 | 0 | 16,000 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau Anghyllidol i Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **536,351** | **0** | **536,351** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Dyfarniadau Adnoddau i Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **15,376,798** | **(1,589)** | **15,375,209** |

Tabl 3.6 – Newidiadau i DEL Cyfalaf Llywodraeth Cymru – Cyfalaf Cyffredinol (heb gynnwys Trafodiadau Ariannol)

| **DYRANIADAU CYFALAF CYFFREDINOL** | | | |
|---|---|---|---|
| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | **£000oedd** | | |
| | **2020-21 Cynlluniau yn ôl Gyllideb Ddrafft** | **Newidiadau** | **2020-21 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Derfynol** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 374,488 | 0 | 374,488 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 585,085 | 0 | 585,085 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 700,466 | 5,000 | 705,466 |
| Addysg | 217,711 | 0 | 217,711 |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 33,467 | 0 | 33,467 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 128,992 | 0 | 128,992 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 28,686 | 560 | 29,246 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau Cyfalaf Cyffredinol i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **2,068,895** | **5,560** | **2,074,455** |

Tabl 3.7 – Newidiadau i DEL Cyfalaf Llywodraeth Cymru – Trafodiadau Ariannol

| DYRANIADAU CYFALAF TRAFODIADAU ARIANNOL | | | |
|---|---|---|---|
| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | **£000oedd** | | |
| | **2020-21 Cynlluniau yn ôl Gyllideb Ddrafft** | **Newidiadau** | **2020-21 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Derfynol** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 0 | 0 | 0 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 150,505 | 0 | 150,505 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 85,260 | 0 | 85,260 |
| Addysg | (195) | 0 | (195) |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 15,746 | 0 | 15,746 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 2,000 | 0 | 2,000 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 1,000 | 0 | 1,000 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau Cyfalaf Trafodiadau Ariannol i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **254,316** | **0** | **254,316** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Dyraniadau Cyfalaf i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **2,323,211** | **5,560** | **2,328,771** |

Tabl 3.8 – Cyllideb AME Llywodraeth Cymru – Dyraniadau Adnoddau

| DYRANIADAU ADNODDAU | | | |
|---|---|---|---|
| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | **£000oedd** | | |
| | **2020-21 Cynlluniau yn ôl Gyllideb Ddrafft** | **Newidiadau** | **2020-21 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Derfynol** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 162,083 | 55,584 | 217,667 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 1,160,200 | 55 | 1,160,255 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 29,525 | 0 | 29,525 |
| Addysg | (124,399) | 598 | (123,801) |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 3,013 | 0 | 3,013 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 2,400 | 0 | 2,400 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 2,999 | 0 | 2,999 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau AME Adnoddau i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **1,235,821** | **56,237** | **1,292,058** |

Tabl 3.9 – Cyllideb AME Llywodraeth Cymru – Dyraniadau Cyfalaf

| DYRANIADAU CYFALAF | | | |
|---|---|---|---|
| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | **£000s** | | |
| | **2020-21 Cynlluniau yn ôl Gyllideb Ddrafft** | **Newidiadau** | **2020-21 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Derfynol** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 0 | 0 | 0 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 0 | 0 | 0 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 0 | 0 | 0 |
| Addysg | 891,388 | (27,757) | 863,631 |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 0 | 0 | 0 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau AME Cyfalaf i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **891,388** | **(27,757)** | **863,631** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Dyraniadau AME i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **2,127,209** | **28,480** | **2,155,689** |

## Pennod 4: Cynlluniau gwario'r Prif Grwpiau Gwariant

Tabl 4.1 – Newid canrannol o un flwyddyn i'r llall, Cyfanswm y Dyraniadau

| **ADNODDAU – Canran y Newid o Flwyddyn i Flwyddyn** | **£000oedd** | | |
|---|---|---|---|
| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | **2019-20** | **2020-21** | |
| | **Cyllideb Atodol Mehefin 2019** | **Cynlluniau Newydd** | **% y newid** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 8,495,236 | 8,958,593 | 5.45% |
| Tai a Llywodraeth Leol | 5,607,571 | 5,866,279 | 4.61% |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 1,353,374 | 1,552,711 | 14.73% |
| Addysg | 2,379,562 | 2,524,521 | 6.09% |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 179,767 | 220,310 | 22.55% |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 300,840 | 350,162 | 16.39% |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 358,913 | 387,093 | 7.85% |
| **Cyfanswm y Dyfarniadau Adnoddau i Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **18,675,263** | **19,859,669** | |

Tabl 4.2 – Newid canrannol o un flwyddyn i'r llall (termau real), Cyfanswm y Dyraniadau

| **ADNODDAU – Newid Canran o Flwyddyn i Flwyddyn – Gwirioneddol** | **£000oedd** | | |
|---|---|---|---|
| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | **2019-20** | **2020-21** | |
| | **Cyllideb Atodol Mehefin 2019** | **Cynlluniau Newydd** | **% y newid** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 8,495,236 | 8,958,593 | 3.55% |
| Tai a Llywodraeth Leol | 5,607,571 | 5,866,279 | 2.72% |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 1,353,374 | 1,552,711 | 12.65% |
| Addysg | 2,379,562 | 2,524,521 | 4.17% |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 179,767 | 220,310 | 20.34% |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 300,840 | 350,162 | 14.29% |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 358,913 | 387,093 | 5.90% |
| **Cyfanswm y Dyfarniadau Adnoddau i Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **18,675,263** | **19,859,669** | |

Tabl 4.3 – Newid canrannol o un flwyddyn i'r llall, DEL Adnoddau Cyllidol

| ADNODDAU – Canran y Newid o Flwyddyn i Flwyddyn | £000s | | |
|---|---|---|---|
| PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs) | 2019-20 | 2020-21 | |
| | Cyllideb Atodol Mehefin 2019 | Cynlluniau Newydd | % y newid |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 8,001,040 | 8,366,438 | 4.57% |
| Tai a Llywodraeth Leol | 3,844,201 | 3,970,434 | 3.28% |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 709,770 | 732,460 | 3.20% |
| Addysg | 1,510,853 | 1,567,175 | 3.73% |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 161,571 | 168,084 | 4.03% |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 211,379 | 216,770 | 2.55% |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 329,698 | 353,848 | 7.32% |
| **Cyfanswm y Dyfarniadau Adnoddau i Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **14,768,512** | **15,375,209** | |

Tabl 4.4 – Newid canrannol o un flwyddyn i'r llall (termau real), DEL Adnoddau Cyllidol

| ADNODDAU – Newid Canran o Flwyddyn i Flwyddyn – Gwirioneddol | £000oedd | | |
|---|---|---|---|
| PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs) | 2019-20 | 2020-21 | |
| | Cyllideb Atodol Mehefin 2019 | Cynlluniau Newydd | % y newid |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 8,001,040 | 8,366,438 | 2.68% |
| Tai a Llywodraeth Leol | 3,844,201 | 3,970,434 | 1.42% |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 709,770 | 732,460 | 1.33% |
| Addysg | 1,510,853 | 1,567,175 | 1.85% |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 161,571 | 168,084 | 2.15% |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 211,379 | 216,770 | 0.70% |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 329,698 | 353,848 | 5.38% |
| **Cyfanswm y Dyfarniadau Adnoddau i Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **14,768,512** | **15,375,209** | |

Tabl 4.5 - Newid canrannol o un flwyddyn i'r llall, DEL Cyfalaf

| **CYFALAF – Canran y Newid o Flwyddyn i Flwyddyn** | **£000oedd** | | |
|---|---|---|---|
| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | **2019-20** | **2020-21** | |
| | **Cyllideb Atodol Mehefin 2019** | **Cynlluniau Newydd** | **% y newid** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 373,096 | 374,488 | 0.37% |
| Tai a Llywodraeth Leol | 677,276 | 735,590 | 8.61% |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 581,167 | 790,726 | 36.06% |
| Addysg | 218,251 | 217,516 | (0.34%) |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 15,183 | 49,213 | 224.13% |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 87,061 | 130,992 | 50.46% |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 26,238 | 30,246 | 15.28% |
| **Cyfanswm y Dyraniadau Cyfalaf i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **1,978,272** | **2,328,771** | |

Tabl 4.6 - Newid canrannol o un flwyddyn i'r llall (termau real), DEL Cyfalaf

| **CYFALAF – Newid Canran o Flwyddyn i Flwyddyn – Gwirioneddol** | **£000oedd** | | |
|---|---|---|---|
| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | **2019-20** | **2020-21** | |
| | **Cyllideb Atodol Mehefin 2019** | **Cynlluniau Newydd** | **% y newid** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 373,096 | 374,488 | (1.44%) |
| Tai a Llywodraeth Leol | 677,276 | 735,590 | 6.65% |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 581,167 | 790,726 | 33.60% |
| Addysg | 218,251 | 217,516 | (2.14%) |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 15,183 | 49,213 | 218.27% |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 87,061 | 130,992 | 47.74% |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 26,238 | 30,246 | 13.19% |
| **Cyfanswm y Dyraniadau Cyfalaf i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **1,978,272** | **2,328,771** | |

Tabl 4.7 – Newid canrannol o un flwyddyn i'r llall, AME Adnoddau

| AME ADNODDAU – Canran y Newid o Flwyddyn i Flwyddyn | £000oedd | | |
|---|---|---|---|
| | 2019-20 | 2020-21 | |
| PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs) | Cyllideb Atodol Mehefin 2019 | Cynlluniau Newydd | % y newid |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 121,100 | 217,667 | 79.74% |
| Tai a Llywodraeth Leol | 1,086,094 | 1,160,255 | 6.83% |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 62,437 | 29,525 | (52.71%) |
| Addysg | (123,844) | (123,801) | (0.03%) |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 3,013 | 3,013 | 0.00% |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 2,400 | 2,400 | 0.00% |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 2,977 | 2,999 | 0.74% |
| **Cyfanswm y Dyraniadau AME Adnoddau i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **1,154,177** | **1,292,058** | |

Tabl 4.8 – Newid canrannol o un flwyddyn i'r llall (termau real), AME Adnoddau

| AME ADNODDAU – Newid Canran o Flwyddyn i Flwyddyn – Gwirioneddol | £000oedd | | |
|---|---|---|---|
| | 2019-20 | 2020-21 | |
| PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs) | Cyllideb Atodol Mehefin 2019 | Cynlluniau Newydd | % y newid |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 121,100 | 217,667 | 76.49% |
| Tai a Llywodraeth Leol | 1,086,094 | 1,160,255 | 4.90% |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 62,437 | 29,525 | (53.57%) |
| Addysg | (123,844) | (123,801) | (1.84%) |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 3,013 | 3,013 | (1.81%) |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 2,400 | 2,400 | (1.81%) |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 2,977 | 2,999 | (1.08%) |
| **Cyfanswm y Dyraniadau AME Adnoddau i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **1,154,177** | **1,292,058** | |

Tabl 4.9 - Newid canrannol o un flwyddyn i'r llall, AME Cyfalaf

| **AME CYFALAF – Canran y Newid o Flwyddyn i Flwyddyn** | **£000oedd** | | |
|---|---|---|---|
| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | **2019-20** | **2020-21** | |
| | **Cyllideb Atodol Mehefin 2019** | **Cynlluniau Newydd** | **% y newid** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 0 | 0 | 0.00% |
| Tai a Llywodraeth Leol | 0 | 0 | 0.00% |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 0 | 0 | 0.00% |
| Addysg | 774,302 | 863,631 | 11.54% |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 0 | 0 | 0.00% |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 0 | 0 | 0.00% |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 0 | 0 | 0.00% |
| **Cyfanswm y Dyraniadau AME Cyfalaf i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **774,302** | **863,631** | |

Tabl 4.10 - Newid canrannol o un flwyddyn i'r llall (termau real), AME Cyfalaf

| **AME CYFALAF – Newid Canran o Flwyddyn i Flwyddyn – Gwirioneddol** | **£000oedd** | | |
|---|---|---|---|
| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | **2019-20** | **2020-21** | |
| | **Cyllideb Atodol Mehefin 2019** | **Cynlluniau Newydd** | **% y newid** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 0 | 0 | 0.00% |
| Tai a Llywodraeth Leol | 0 | 0 | 0.00% |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 0 | 0 | 0.00% |
| Addysg | 774,302 | 863,631 | 9.52% |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 0 | 0 | 0.00% |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 0 | 0 | 0.00% |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 0 | 0 | 0.00% |
| **Cyfanswm y Dyraniadau AME Cyfalaf i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **774,302** | **863,631** | |

# Atodiad A: Cysoni rhwng y Gyllideb Weinyddol a Dyraniadau Adnoddau yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol

| | 2020-21 CYLLIDEB DERFYNOL £000oedd | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | **Tai a Llywodraeth Leol** | **Yr Economi a Thrafnidiaeth** | **Addysg** | **Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol** | **Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig** | **Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu** | **CYFANSWM** |
| Adnoddau | 8,366,438 | 3,970,434 | 732,460 | 1,567,175 | 168,084 | 216,770 | 353,848 | **15,375,209** |
| Cyfalaf | 374,488 | 735,590 | 790,726 | 217,516 | 49,213 | 130,992 | 30,246 | **2,328,771** |
| AME Adnoddau | 217,667 | 1,160,255 | 29,525 | (123,801) | 3,013 | 2,400 | 2,999 | **1,292,058** |
| AME Cyfalaf | 0 | 0 | 0 | 863,631 | 0 | 0 | 0 | **863,631** |
| **CYFANSWM Y GWARIANT A REOLIR (TME)** | **8,958,593** | **5,866,279** | **1,552,711** | **2,524,521** | **220,310** | **350,162** | **387,093** | **19,859,669** |
| **Cysoni ag Adnoddau** | | | | | | | | |
| Defnydd Adnoddau Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru | (230) | (200) | | (305) | (7,281) | (12,400) | | **(20,416)** |
| Benthyca a Chymorth | | (88,800) | | | | | | **(88,800)** |
| Costau Casglu Derbyniadau'r Gronfa Yswiriant Gwladol | (906) | | | | | | | **(906)** |
| Ardrethi Annomestig Cenedlaethol sy'n Daladwy (a Chostau Casglu) | | (1,141,172) | | | | | | **(1,141,172)** |
| Ad-dalu Llog ar Fenthyciadau | | | | | | | (2,474) | **(2,474)** |
| PFI | | | (8,982) | | | | | **(8,982)** |
| **ADNODDAU Y GWNAED CAIS AMDANYNT** | **8,957,457** | **4,636,107** | **1,543,729** | **2,524,216** | **213,029** | **337,762** | **384,619** | **18,596,919** |

## Atodiad B: Rhestr o dermau ariannol

| | |
|---|---|
| ***Cam gweithredu*** | *O fewn pob Maes Rhaglen Wariant, dyrennir cyllidebau i nifer o is-raglenni a elwir yn Gamau Gweithredu.* |
| ***Cwmpasoedd*** | *Disgrifiadau o'r dibenion penodol y mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wario adnoddau arnynt. Mae disgrifiadau o'r Cwmpasoedd a'r terfynau o ran adnoddau wedi'u cynnwys yng nghynnig y Gyllideb flynyddol. Mae'r cwmpasoedd yn cyfateb i'r Prif Grwpiau Gwariant (MEG).* |
| ***Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):*** | *Gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, amlflwyddyn yn yr un ffordd â DEL, ac sydd felly'n cael ei adolygu ddwywaith y flwyddyn fel rhan o brosesau Cyllideb ac adroddiad rhag-gyllidebol Trysorlys EM. Mae Gwariant a Reolir yn Flynyddol, fel rheol, yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn ansicr neu'n ymateb i'r galw; er enghraifft benthyciadau i fyfyrwyr.* |
| ***Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)*** | *O fewn pob Cam Gweithredu, dyrennir cyllidebau i nifer o is-grwpiau gwariant a elwir yn Llinellau Gwariant yn y Gyllideb. Mae tablau sy'n dangos cyllidebau ar lefel y BEL ar gael yn:* [*https://llyw.cymru/funding/budget/?skip=1&lang=cy*](https://llyw.cymru/funding/budget/?skip=1&lang=cy) |
| ***Fformiwla Barnett*** | *Y fformiwla a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU i gyfrifo newidiadau i'r grant bloc a ddyrennir i Lywodraeth Cymru (ac i'r gweinyddiaethau datganoledig eraill). Mae Llywodraeth Cymru yn cael yr un newidiadau i gyllid y pen o'r boblogaeth a'r hyn a gyhoeddir yn Lloegr ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u datganoli i Gymru. Fel rhan o'r fframwaith cyllidol y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn 2016, caiff ffactor sy'n seiliedig ar anghenion ei gymhwyso i ddyraniadau fformiwla Barnett i Gymru. Ar hyn o bryd mae hwn wedi'i bennu ar bump y cant yn ychwanegol.* |
| ***Cynnig y Gyllideb*** | *Y dull a ddefnyddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i roi awdurdod i Weinidogion Cymru wario adnoddau hyd at lefel benodol ar ddibenion penodedig ac i dynnu arian parod hyd at derfyn penodol o Gronfa Gyfunol Cymru.* |
| ***Cyfalaf*** | *Gwariant sy'n arwain yn bennaf at ased ffisegol, er enghraifft adeilad newydd. Mae cyfran o'r DEL Cyfalaf yn cynnwys cyfalaf trafodiadau ariannol.* |
| ***Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)*** | *Terfyn y gyllideb amlflwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru a bennwyd gan Drysorlys EM. Caiff y DEL ei gynllunio a'i reoli ar sail amlflwyddyn mewn Adolygiadau o Wariant. Mae gan gyllidebau DEL a Gwariant a Reolir yn Flynyddol Llywodraeth Cymru derfynau gwahanol ar gyfer cyfalaf a refeniw.* |
| ***Dibrisiant*** | *Y gostyngiad yng ngwerth ased yn sgil traul, oed a'r ffaith ei fod wedi darfod. O ran cyllidebu adnoddau, mae dibrisiant yn rhan o DEL Llywodraeth Cymru ond mae'n eitem DEL adnoddau anghyllidol.* |
| ***Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru*** | *Gwariant y mae'n ofynnol yn gyfreithiol gofyn i Gronfa Gyfunol Cymru ei dalu'n uniongyrchol ac felly nad yw'n sgorio yn erbyn cyllidebau Llywodraeth Cymru nac unrhyw gorff arall. Ymhlith y costau uniongyrchol mae cyflog y Llywydd a'r Archwilydd Cyffredinol.* |

| | |
|---|---|
| ***Cyfalaf Trafodiadau Ariannol*** | *Mae trafodiadau ariannol yn rhan o'r setliad DEL cyfalaf, a dim ond at ddibenion benthyciadau a buddsoddiadau ecwiti i drydydd partïon y gellir eu defnyddio. Ar y cyfan, rhaid ad-dalu'r cyllid i Drysorlys Ei Mawrhydi.* |
| ***DEL Adnoddau Cyllidol*** (arferid cyfeirio atynt fel 'adnoddau sydd bron yn arian parod') | *Y gyllideb DEL Adnoddau Cyllidol sy'n sgorio'r rhan fwyaf o wariant cyfredol yr adran. Cofnodir gwariant ar sail croniadau. Mae'n cynnwys gwariant ar gyflogau, caffael cyfredol, grantiau cyfredol a chymorthdaliadau.* |
| ***Prif Grŵp Gwariant (MEG)*** | *Caiff DEL Llywodraeth Cymru ei rannu'n nifer o Brif Grwpiau Gwariant. Ceir saith Prif Grwpiau Gwariant ar hyn o bryd: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Tai a Llywodraeth Leol; yr Economi a Thrafnidiaeth; Addysg; Ynni, yr Amgylchedd a Materion Gwledig; y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, a Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.* |
| ***DEL Adnoddau Anghyllidol (arferid cyfeirio atynt fel adnoddau nad ydynt yn arian parod)*** | *Mae'r gyllideb DEL Adnoddau Anghyllidol yn sgorio gwariant cyfredol yr adran mewn perthynas â dibrisiant ac amhariadau benthyciadau i fyfyrwyr. Mae DEL Adnoddau Anghyllidol wedi'i glustnodi ac ni ellir ei ddefnyddio i gyllido gwariant DEL adnoddau cyllidol.* |
| ***Derbyniadau*** | *Mae rhai rhannau o weithgarwch Llywodraeth Cymru yn creu incwm, er enghraifft, drwy werthu neu rentu asedau. Caiff y rhain eu cynrychioli yn y Gyllideb fel ffigurau negyddol.* |
| ***Cyllidebu adnoddau*** | *Mae Cyllideb Llywodraeth Cymru wedi'i phennu ar sail adnoddau sy'n deillio o wybodaeth am groniadau. Mae'r wybodaeth am groniadau yn mesur adnoddau wrth iddynt gael eu defnyddio yn hytrach na phan delir yr arian parod. Felly, er enghraifft, mae cyllideb adnoddau yn cynnwys ffi am ddibrisiant, ffordd o fesur yr asedau cyfalaf a ddefnyddiwyd neu a dreuliwyd.* |
| ***Adnoddau*** *(Arferid cyfeirio atynt fel refeniw)* | *Gwariant cyfredol, er enghraifft arian i dalu cyflog gweithwyr y sector cyhoeddus ac i brynu nwyddau a gwasanaethau traul.* |
| ***Adolygiad o Wariant*** | *Bob dwy neu dair blynedd mae Trysorlys Ei Mawrhydi yn adolygu gwariant pob un o Adrannau Llywodraeth y DU ac yn pennu cyllidebau ar gyfer y blynyddoedd canlynol. Mae cyllidebau ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig yn deillio o'r cyllidebau hyn drwy gyfrwng Fformiwla Barnett. Dyma'r dull a ddefnyddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi i gyfrifo'r gwariant cyhoeddus a ddyrennir i Gymru i adlewyrchu'r newidiadau yn lefelau'r gwariant a ddyrennir i wasanaethau cyhoeddus yn Lloegr.* |
| ***Cylch Gwario*** | *Proses a arweinir gan Lywodraeth y DU i ddyrannu adnoddau ar draws holl Adrannau'r Llywodraeth, yn ôl blaenoriaethau'r Llywodraeth yw'r Cylch Gwario Nid yw'n cynnwys diwygiad i ragolygon trethi* |
| ***Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)*** | *Cyfanswm Rheoli gan Drysorlys Ei Mawrhydi yw hwn sy'n cynnwys cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol ynghyd â Gwariant a Reolir yn Flynyddol.* |

| | |
|---|---|
| ***Cronfa Wrth Gefn Cymru*** | *Bydd Cronfa wrth Gefn Cymru, a fydd ar waith o fis Ebrill 2018 ymlaen, yn arf newydd a fydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i reoli ei chyllideb dros gyfnod o flynyddoedd. Bydd modd i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r Gronfa Wrth Gefn i gynilo'r refeniw a fydd yn weddill o'r trethi datganoledig a'r tanwariant ar y Terfyn Gwariant Adrannol, i'w ddefnyddio yn y dyfodol. Bydd modd i'r Gronfa gadw hyd at £350m, gyda chyfyngiad blynyddol o £125m ar gyfer adnoddau a £50m ar gyfer cyfalaf. Ni fydd cyfyngiad blynyddol ar yr arian a delir i mewn i'r Gronfa.* |
| ***Cronfa Gyfunol Cymru*** | *Y cyfrif sy'n derbyn yr arian sydd i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, yr Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn unol â phleidlais Senedd y DU.* |
| ***CNLC*** | *Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae enghreifftiau'n cynnwys Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.* |